

No.1 Fferm Plas Newydd | Llanfairtalhaiarn, Conwy | Carter Jonas

# No.1 Fferm Plas Newydd
# Llanfairtalhaiarn
# Abergele
# Conwy
# LL22 8YP

**Daliad da byw cyfarparedig â thŷ fferm, amryw adeiladau amaethyddol a thua 73 o erwau o dir amaeth.**

Cyfle prin i brynu fferm weithredol amlbwrpas nid nepell o bentref dymunol Llanfair Talhaiarn.

Gwerthir y daliad ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

At ei gilydd, mae'n 75 o erwau. Y cyfan ar werth drwy dendr anffurfiol.

Carter Jonas







## Lleoliad

Saif Fferm No.1 Plas Newydd gerllaw pentref gwledig Llanfair Talhaiarn yn sir Conwy.

Mae'r daliad mewn ardal wledig ddymunol ac mae lôn wledig yn mynd ato.

Mae tref farchnad Abergele 5 milltir o'r daliad, Bae Colwyn 9 milltir i ffwrdd a Llandudno 15 milltir i ffwrdd.

## Amwynderau

Ceir siop a Swyddfa Bost ym mhentref Llanfair Talhaiarn yn ogystal ag ysgol gynradd, tafarndai a chaffi. Mae Abergele, Bae Colwyn a Llandudno'n cynnig amrywiaeth fwy helaeth o wasanaethau, gan gynnwys siopau lleol a chenedlaethol, ysgolion uwchradd preifat a chyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus.

### Tŷ Fferm

Saif y tŷ fferm ger y ffordd ac mae'n annedd sengl o frics â tho llechi. Adeiladwyd estyniad ar y tŷ fferm i greu mwy o le ar y llawr gwaelod.

Ar y llawr gwaelod mae ystafell fyw, cegin ac ystafell fwyta / fyw, ac mae tair o ystafelloedd gwely ac ystafell ymolchi ar y llawr cyntaf. Mae angen moderneiddio'r eiddo, ond mae'r cynllun mewnol yn rhoi digon o le ar gyfer lle byw ymarferol, ac felly mae cyfle i'r prynwr greu tŷ fferm deniadol sy'n addas ar gyfer y daliad.

















# Floor Plan

No.1 Fferm Plas Newydd
Llanfairtalhaiarn
Abergele
Conwy




Ground Floor




First Floor

For illustrative purposes only - not to scale.
The position & size of doors, windows, appliances
and other features are approximate only.

## Adeiladau

Ceir amryw adeiladau amaethyddol cyfoes a thraddodiadol ar y daliad sy'n addas ar gyfer cadw cymysgedd o wartheg a defaid. Saif y rhain o amgylch dau fuarth a cheir cysylltiadau da rhwng yr amryw rannau o'r fferm.

Y prif strwythur yw adeilad amaethyddol cyffredinol, cyfoes a ddefnyddiwyd fel cwt wyna yn y gorffennol ond y gellid ei drosi at amryw ddibenion eraill, gan gynnwys beudy ar gyfer gwartheg. Ceir amryw adeiladau amaethyddol cyffredinol eraill sy'n addas i gadw da byw, yn ogystal ag adeiladau traddodiadol o frics a cherrig sy'n addas fel storfeydd.

Mae yno storfa slyri goncrit a mwy o le i gadw slyri dan lawr delltog ar y buarth.





## Tir


Ceir tua 73 o erwau o dir amaeth y gellid mynd at o'r buarth a'r lôn gyhoeddus sy'n mynd ar hyd ffin orllewinol y daliad. Mae'r tir wedi'i rannu'n nifer o ddarnau o faint da ac yn bennaf yn wastad neu ar lethr ysgafn.

Mae'r tir mewn cyflwr da ac yn addas fel tir pori, yn ogystal â silwair neu gnydau âr. Mae'r daliad ar dir gweddol uchel gyda golygfa braf ac mae ffens o amgylch yr holl ffiniau i gadw da byw. Daw prif gyflenwad dŵr i'r daliad o'r buarth.










© Crown Copyright and database rights 2025 OS 100004458

## Dull Gwerthu

Mae'r eiddo ar werth drwy DENDR ANFFURFIOL.

## Deiliadaeth a Meddiant

Rhydd-ddaliad yr eiddo sydd ar werth ac mae'n wag cyn ei feddiannu.

## Cynllun y Taliad Sylfaenol

Mae'r daliad wedi'i gofrestru â Thaliadau Gwledig Cymru. Nid oes unrhyw fuddion drwy Gynllun y Taliad Sylfaenol wedi'u cynnwys yn y gwerthiant.

Mae gwybodaeth fanylach ar gael gan yr asiant gwerthu, ond byddai'n ddoeth i ddarpar brynwyr geisio cyngor annibynnol ynghylch y posibilrwydd o hawlio Taliad Sylfaenol.

## Statws Rhestredig

Mae un o'r cytiau cerrig traddodiadol yn adeilad rhestredig Gradd II*. Mae ychwaneg o fanylion ar gael gan yr asiant gwerthu, Carter Jonas.

## Fforddfreintiau, Hawddfreintiau a Hawliau Tramwy

Gwerthir yr eiddo yn amodol ar yr holl fforddfreintiau, hawddfreintiau a hawliau tramwy a gyda buddion y rheiny, boed y manylion hyn yn eu crybwyll neu beidio.

## Iechyd a Diogelwch

Oherwydd y peryglon posib ar fferm da byw, gofynnwn ichi fod mor wyliadwrus â phosib wrth gynnal eich archwiliad, er eich diogelwch personol eich hun.

## Sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni

Mae gan dŷ fferm No.1 Plas Newydd sgôr perfformiad ynni G (7).

## Awdurdod Lleol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
www.conwy.gov.uk


## Gweld yr Eiddo

Mae'n rhaid trefnu a chadarnhau apwyntiad ag asiant y gwerthwr i weld yr eiddo, drwy ffonio 01248 360414.

## Cyfarwyddiadau

O bentref Llanfair Talhaiarn, ewch ar hyd yr A548 i'r gogledd tuag Abergele. Ar ôl hanner milltir, trowch yn llym i'r chwith i fyny'r allt ac ewch ar hyd y lôn wledig am tua hanner milltir. Fe ewch chi heibio mynedfa No.2 Fferm Plas Newydd nes bod modd troi'n llym i'r dde i fynd at y tŷ fferm a'r fynedfa i'r buarth.

what3words
/// chopper.sideburns.factory






### North Wales

01248 360414 | bangorrural@carterjonas.co.uk
The Estate Office, Port Penrhyn, Bangor, LL57 4HN

### National Rural Agency

07880 084633 | andrew.chandler@carterjonas.co.uk
One Chapel Place, London, W1G 0BG


### Important Information

These particulars are for general information purposes only and do not represent an offer or contract or part of one. Carter Jonas or anyone in their employment has made every attempt to ensure that the particulars and other information provided are as accurate as possible and they are not intended to amount to advice on which you should rely as being factually accurate. Full information which may be relevant to your decision regarding the property can be found on the property listing on carterjonas.co.uk or, (including off market properties) on the brochure or a separately available material information sheet. We would advise you to confirm the details of any material information prior to any offer being submitted. You should not assume that the property has all necessary planning, building regulations or other consents and Carter Jonas has not tested any services, facilities or equipment. Any measurements and distances given are approximate only. Where Carter Jonas has been provided with a floorplan by a third party, we cannot guarantee that the floorplan has been measured in accordance with IPMS. Purchasers must satisfy themselves of all of the aforementioned by independent inspection or otherwise. Our images only represent part of the property as it appeared at the time they were taken and do not represent the furnishings included; these are confirmed in a separate inventory. If you require further information, please contact us.